# Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## (CWLS(2) 09-06 (p6))

**Dyddiad y cyfarfod:** Dydd Iau, 15 Mehefin 2006
**Amser y cyfarfod:** 9:30am – 12:30pm
**Lleoliad y cyfarfod:** Y Pafiliwn Rhyngwladol Brenhinol, Ffordd yr Abaty, Llangollen

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

## 1. Y CELFYDDYDAU

### 1.1 Theatr Saesneg

Anerchais gynhadledd flynyddol Cyngor Celfyddydau Cymru ar 10 Mai yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth, pan gyhoeddais bod Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi £500,000 o arian ychwanegol i'r Theatr Saesneg. Rwyf wedi gofyn i Gyngor y Celfyddydau i archwilio model Theatr Genedlaethol yr Alban ac i awgrymu sut y dylid defnyddio'r arian. Rwyf yn gobeithio cael adroddiad Cyngor y Celfyddydau yn y dyfodol agos. Ceir copi o'm haraith yn Atodiad A.

### 1.2 Prosiect Cymuned Aberfan

Yn ddiweddar rwyf hefyd wedi cytuno i sicrhau bod £50,000 ar gael yn y flwyddyn ariannol gyfredol i gefnogi datblygiad Prosiect Cymuned Aberfan. Caiff yr arian hwn ei ddefnyddio drwy Gyngor y Celfyddydau. Mae'r Prosiect yn cynnwys nifer o gydrannau, yn cynnwys yr arlunydd rhyngwladol Shimon Attie yn gweithio gyda phobl Aberfan i greu darn o gelfyddyd i nodi deugain mlynedd ers y drychineb. Bydd y pentref yn cael budd o'r prosiect oherwydd bydd yn rhoi'r cyfle i'r gymuned siarad dros ei hun ac yn dangos sut mae'r gymuned wedi ymdopi ers y drychineb ac yn symud ymlaen.

### 1.3 Bwrdd Diwylliant

Bu i'r Bwrdd Diwylliant, yr wyf yn gadeirydd arno, gyfarfod ar 15 Mai. Cafwyd cyflwyniadau gan sefydliadau sy'n cynrychioli Cymru yn rhyngwladol - Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, Visiting Arts, Wales and Venice a'r Artes Mundi. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Athro Elan Closs Stephens ar gynnydd wrth sefydlu'r Adolygiad o'r Celfyddydau a'u camau gweithredu arfaethedig. Cafwyd trafodaeth hefyd ar gwmpas y Strategaeth Ddiwylliant i Gymru. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r strategaeth gwmpasu agenda diwylliant y bwrdd yng Nghymru. Nid yw'r meysydd pwnc penodol sydd i'w cynnwys yn y strategaeth wedi eu pennu eto. Gofynnodd y Bwrdd i'r swyddogion lunio fframwaith a rhaglen waith i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

### 1.4 Dawns

Cododd y Pwyllgor ddau fater yn y cyfarfod diwethaf: yr adnoddau sydd i'w gwario ar ddawns gan Gyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon a chymhwyster ar gyfer bwrsariaethau dawns ar gyfer hyfforddiant mewn dawns. O ran yr adnoddau a ddefnyddir gan Gyngor y Celfyddydau a'r Cyngor Chwaraeon yn 2006/7 y cyfanswm yw £800,000 gan Gyngor y Celfyddydau (£673,000 yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor y Celfyddydau a £125,000 yn ychwanegol a gyhoeddais i gefnogi adolygiad y Pwyllgor ar ddawns) a £125,000 sydd ar gael i'r Cyngor Chwaraeon.

## 2. AMGUEDDFEYDD A LLYFRGELLOEDD

### 2.1 Lansio 'Camau Cymraeg' - 27 Mai 2006

Ar 27 Mai lansiais "*Camau Cymraeg"* yn Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis.

Mae *Camau Cymraeg* yn brosiect dysgu arloesol newydd sy'n galluogi dysgwyr Cymraeg i ddefnyddio Amgueddfa Lechi Cymru fel adnodd cyffrous a hygyrch ar gyfer dysgu.

Mae'r prosiect hwn a gyhoeddwyd ar y we wedi'i ddatblygu mewn ymateb i Iaith Pawb ac o dan nawdd Amgueddfa Cymru - Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru sydd wedi cyfrannu £15,000 at y prosiect.

Mae *Camau Cymraeg* yn ddilyniant o Llwybrau Llafar - prosiect tebyg a lansiais gyda'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ddwy flynedd yn ôl. Mae'r ddau yn enghreifftiau o waith pwysig a wneir yn y sector addysg ôl-16 gan Amgueddfa Cymru - Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Mae staff Amgueddfa Lechi Cymru wedi cael hyfforddiant penodol i roi cymorth i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau iaith ac yn ystod y cyfnod peilot, ymatebodd tiwtoriaid a myfyrwyr yn frwdfrydig i'r deunydd a'r cysyniad o ddefnyddio'r amgueddfa fel adnodd dysgu iaith.

### 2.2 Ailbenodiadau i'r Cyngor

Hoffwn hysbysu’r Aelodau bod **Rhiannon Wyn Hughes** a **Huw Williams** wedi cael eu hail-benodi fel Ymddiriedolwyr y Cyngor yn Amgueddfa Cymru - Amgueddfa Genedlaethol Cymru am gyfnod o 4 blynedd. Mae'r ddau Aelod o'r Cyngor wedi dangos ymroddiad i waith y Cyngor ac mae eu cyfraniadau wedi bod yn werthfawr. Cynhaliwyd y weithdrefn ail-benodi hon mewn cydymffurfiad â Chod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus a Chod Ymarfer y Cynulliad ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus.

### 2.3 'Diwrnodau Gweledigaeth'

Bydd Amgueddfa Cymru - Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn cynnal cyfres o 'Ddiwrnodau Gweledigaeth' ym mis Mehefin. Bydd y diwrnodau hyn galluogi'r Amgueddfa i gyflwyno ei gweledigaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf i gynulleidfa wadd ac i aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb a fydd yn gallu trafod a dadlau materion sy'n gysylltiedig â thair o'r prif rannau curadurol o waith yr Amgueddfa : hanes cenedlaethol; materion celfyddydau a byd-eang/gwyddonol.

Bydd aelodau eisoes wedi cael gwahoddiad i'r digwyddiadau ac rwyf yn eu hannog i fynychu.

Byddaf yn bresennol ar gyfer y drafodaeth a'r ddadl ar gelfyddydau gweledol yng Nghymru ar Fehefin 29 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Bydd aelodau'n cofio bod cynrychiolwyr o Amgueddfa Cymru - Amgueddfa Genedlaethol Cymru wedi dod i'r Pwyllgor Diwylliant ar 17 Tachwedd 2005 i ddiweddaru'r Pwyllgor ar gynnydd ymgynghoriad Gweledigaeth yr Amgueddfa.

## 3 CyMal : Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru

### 3.1 Mis Amgueddfeydd ac Orielau

Mis Mai 2006 oedd mis Amgueddfeydd ac Orielau Drwy'r mis, cynhaliwyd gweithgareddau ledled Cymru i nodi pwysigrwydd amgueddfeydd o dan y thema Creu'r Cysylltiadau : y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol. I nodi dechrau'r digwyddiadau euthum i Amgueddfa Llandudno ble y gwelais weithdy ar gyfer plant ysgol ac yna euthum i arddangosfa Mark Dion yn Oriel Mostyn.

Yn Llandudno, cyhoeddais grantiau o fwy na £300,000 i amgueddfeydd annibynnol ac amgueddfeydd awdurdod lleol. Bydd yr arian hwn yn galluogi ein hamgueddfeydd a'n horielau lleol i ddatblygu eu cyfleusterau a'u gwasanaethau er mwyn sicrhau bod ymwelwyr yn parhau i'w mwynhau.

Ceir rhestr o'r gwobrau yn Atodiad B.

### 3.2 Cynllun Achredu Amgueddfeydd

Yn ystod mis Mai cymerais ran hefyd mewn seremoni yn Amgueddfa ac Oriel Casnewydd i ddathlu llwyddiant amgueddfeydd Cymru o dan y Cynllun Achredu Amgueddfeydd newydd ledled y DU (sy'n disodli'r hen Gynllun Cofrestru). Diben y cynllun yw gofyn i amgueddfeydd osod cyfres safonau gofynnol sy'n gwarantu ansawdd ac atebolrwydd cyhoeddus. Rwyf yn falch bod cynifer o amgueddfeydd lleol wedi llwyddo i ennill achrediad o fewn blwyddyn i lansio'r cynllun yng Nghymru.

Ceir rhestr o'r rhai a Achredwyd yn Atodiad C.

### 3.3 Cynhadledd Llyfrgelloedd Cysylltiadau Celtaidd a Lansio Gwefan

Ar 17 Mai siaradais yng Nghynhadledd Llyfrgelloedd Cysylltiadau Celtaidd a fynychwyd gan dros 200 o lyfrgellwyr ac eraill o Gymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Rhoddodd y Gynhadledd gyfle i amlinellu ein Rhaglen Datblygu Llyfrgelloedd a chafodd groeso gan y gynulleidfa ryngwladol.

Gyda'r nos yr un diwrnod, yn y Senedd, lansiais wefan ddwyieithog newydd a fydd yn galluogi aelodau llyfrgelloedd Cymru i gofrestru ar-lein i gael mynediad at amrywiaeth eang o wasanaethau gwybodaeth â blas Cymreig am ddim. Wedi'i ariannu gan CyMAL, gellir dod o hyd i'r wefan yn www.llyfrgell.wales.org a www.library.cymru.org. Mae'r enwau parth, Cymru.org a Wales.org wedi eu rhoi drwy garedigrwydd Mr Rhys Jones i'w defnyddio gan y Rhaglen.

## 4. POLISI LOTERI

### 4.1 Big Anthem Fawr

Ar ddechrau mis Mai cyhoeddais y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi £35,000 tuag at gostau llwyfannu Big Anthem Fawr, dathliad cerddorol o ben-blwydd Anthem Genedlaethol Cymru, Hen Wlad Fy Nhadau yn 150 oed, a ddarlledwyd ar y teledu.

Wedi'i gynnal ar ddydd Llun Gŵyl y Banc, dyma ddiweddglo gwledd gerddorol tri diwrnod a gynhaliwyd ym Mharc Ynys Angharad ym Mhontypridd, a elwir yn Ponty in the Park. Trefnwyd y digwyddiad gan The Pop Factory ac roedd yn adeiladu ar lwyddiant cyngerdd dychweliad Tom Jones y llynedd. Yn ogystal â'r cyngherddau a gynhaliwyd o fewn y parc, cyfunwyd y digwyddiad â gŵyl ymylol yng nghanol Pontypridd. Yn dilyn cais gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, cytunodd The Pop Factory i gynnwys dathliadau'r Big Anthem Fawr yn eu rhaglen o ddigwyddiadau, ac roedd digwyddiad dydd Llun Gŵyl y Banc am ddim i bawb oedd yn dymuno ymuno â'r dathliadau a nodi'r achlysur pen-blwydd.

## 5. CHWARAEON

### 5.1 Dringo'n Uwch

Byddwn yn cynnal dadl lawn yn ystod mis Gorffennaf lle byddaf yn cyflwyno fy nghynlluniau buddsoddi a fydd yn adeiladu ar ymrwymiadau maniffesto fel nofio am ddim. Byddaf yn gwneud cyhoeddiadau pellach yn ystod yr Haf yn cynnwys datblygu chwaraeon mewn ysgolion.

### 5.2 Chwaraeon Ysgolion Uwchradd a Nofio Am Ddim

Edrychaf ymlaen at gyhoeddi manylion fy rhaglen chwaraeon ysgolion uwchradd newydd a anelir at wella effaith y fenter Nofio Am Ddim.

### 5.3 Cyfarfod gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW)

Cefais gyfarfod cynhyrchiol gydag Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW), David Collins. Trafodwyd yn arbennig bolisi iaith Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chytunwyd y caiff y mater ei ystyried yn eu cyfarfod bwrdd nesaf. Mae'n bleser gennyf hefyd roi gwybod i'r Aelodau y byddai Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn parhau i gynnal rhai gemau rhyngwladol yng Nghae Ras Wrecsam AFC yn y dyfodol.

Mae'n galonogol dysgu bod Cyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru erbyn hyn wedi gofyn i'r Pwyllgor Rheoli adolygu ei pholisi iaith Gymraeg, ac ystyried sut mae'n gwneud busnes yn Gymraeg dros yr e-bost a'i threfn disgyblu. Bydd y Pwyllgor Rheoli yn adrodd i gyfarfod y Cyngor yn y dyfodol.

### 5.4 Wrecsam AFC

Fe'm calonogwyd i ddysgu bod cyfranddeiliaid a chredydwyr Clwb Pêl-droed Wrecsam yn unfrydol wedi cefnogi cynnig trosfeddiannu a arweiniwyd gan ddyn busnes lleol, Neville Dickens. Rydym yn aros yn obeithiol y bydd trafodaethau yn rhedeg yn esmwyth a chaiff bargen ei tharo a fydd yn diogelu'r clwb pêl-droed.

### 5.5 Cyfarfod Nofio Cymru

Cyfarfûm â'r Prif Weithredwr, Mr R James, a'r Cyfarwyddwr, y Cynghorydd R Seabourne, o Nofio Cymru, corff llywodraethol nofio yng Nghymru (Nofio Cymru yw enw busnes Cymdeithas Nofio Amatur Cymru). Trafodwyd ac atgyfnerthwyd y cyfraniad pwysig y gall nofio ei wneud i gyflawni targedau yn Dringo'n Uwch. Amlygodd Nofio Cymru hefyd eu pryderon penodol ynglŷn â'r materion sy'n effeithio ar ddysgu nofio i blant ac ar broblemau wrth hyfforddi hyfforddwyr ac athrawon. Byddaf yn cyflwyno'r pryderon hyn i'm cyd-Aelod yn y Cabinet, Jane Davidson, mewn cyfarfod traws bortffolio i'w drefnu'n fuan.

### 5.6 Cwpan y Byd Paralympiaidd 2006, Manceinion

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi rhai perfformiadau ardderchog gan ein hathletwyr Paralympaidd yng Nghwpan y Byd Paralympaidd 2006, a gynhaliwyd ym Manceinion rhwng 1 a 7 Mai. Enillodd Paralympwyr Elit Cymru wyth medal (pedair aur, tair arian ac un efydd) allan o'r un ar hugain o fedalau a enillwyd gan Dîm Prydain. Bu iddynt hefyd dorri dwy record byd. (Manylion llawn yn atodiad Ch).

### 5.7 Cymharu perfformiad Tîm Cymru ym Melbourne a Manceinion

Yn dilyn cais diweddar gan Aelodau, ceir cymhariaeth isod rhwng nifer y medalau a enillwyd gan Dîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2006 ym Melbourne a nifer y medalau a enillwyd yn y Gemau yn 2002 ym Manceinion.

Nodwch, fodd bynnag, nad yw'r sail ar gyfer y gymhariaeth yn gyfan gwbl yr un fath oherwydd y gwahaniaethau canlynol :

- Cafwyd gwared â jiwdo ym Melbourne a'i ddisodli gan bêl-fasged ac felly roedd Cymru 6 medal i lawr.
- Cafodd pob un a gyrhaeddodd y rownd gynderfynol yn y gystadleuaeth tennis bwrdd fedal efydd ym Manceinion ond roedd tair gêm dros ben ym Melbourne ac o ganlyniad cafodd Cymru ddau 4[ydd safle] yn hytrach na chydradd drydydd a dwy fedal efydd.
- Dim ond ar gyfer cyfansymiau 'overall' y rhoddwyd medalau codi pwysau ym Melbourne yn hytrach na 'overall', 'clean and jerk' a 'snatch'. Roedd hyn yn golygu y byddai Cymru wedi cael dwy fedal aur arall petai sail y cyfrifiad wedi bod yr un fath ag ym Manceinion.

O ganlyniad, byddai 29 medal amcanol yn gymhariaeth gywirach yn (yn hytrach na 19 medal wirioneddol) ym Melbourne o gymharu â 31 ym Manceinion.

| ***Medal*** | ***Manceinion 2002*** | ***Melbourne 2006*** |
|---|---|---|
| Aur | 6 | 3 |
| Arian | 13 | 5 |
| Efydd | 12 | 11 |
| **CYFANSWM** | **31** | **19** |

### 5.8 Croesawu Tîm Cymru

Mae trafodaethau'n cael eu cynnal nawr dros amseriad a lleoliad y digwyddiad hwn.

### 5.9 Harlem Globetrotters

Euthum i gêm bêl-fasged Harlem Globetrotters v New York National yn Arena Rhyngwladol Caerdydd ar ddydd Sul 21 Mai. Cefais hefyd y cyfle i gyfarfod dau o'n timau iau o Ben-y-bont ar Ogwr a'r Rhondda.

### 5.10 Cymdeithas Eryri

Traddodais y brif araith yng Nghynhadledd Hamdden a Mynediad Cymdeithas Eryri ym Mhlas y Brenin ddydd Sadwrn 10 Mehefin. Roedd y gynhadledd yn canolbwyntio ar gyfleoedd cynyddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden egnïol yn ein hawyr agored naturiol a ddarparwyd gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a'r gofyniad i gydbwyso'r cyfleoedd yn erbyn yr angen am bolisïau rheoli sensitif i amddiffyn amgylchedd unigryw Eryri.

# 6. AMGYLCHEDD HANESYDDOL

## 6.1 Grantiau Adeiladau Hanesyddol

Drwy Cadw, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn parhau i gynnig grantiau i atgyweirio ac adfer adeiladau hanesyddol gorau Cymru ac i wella ymddangosiad ardaloedd cadwraeth - tua £13m dros y pum mlynedd diwethaf. Heb y grant hwn, byddai llawer o'r adeiladau hyn wedi bod mewn perygl mawr o gael eu colli. Cynigir y grantiau pwy bynnag yw'r perchennog. Cyfeirir rhai at y sector gwirfoddol tra bod eraill wedi helpu i sicrhau ailddefnydd addasol er budd cymunedau lleol.

Yn ddiweddar rwyf wedi cyhoeddi manylion y gyfran ddiweddaraf o grantiau - bron i £200,000, yn amrywio o £12,000 i £34,800 ar gyfer saith adeilad ledled Cymru. Caiff pob Aelod o'r Cynulliad, yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor, wybod am y grantiau hyn, gyda llythyr ar wahân i'r Aelodau Cynulliad etholaethol a rhanbarthol.

Ymhlith y prosiectau a fydd yn elwa o'r arian diweddaraf hyn mae Leighton Home Farm, yn y Trallwng. Mae grant o £30,000 wedi'i gynnig i Gyngor Sir Powys ar gyfer y broses barhaus o adfer ac atgyweirio'r enghraifft eithriadol hon o ddatblygiad ystâd Fictoraidd, sy'n fferm fodel o bwysigrwydd cenedlaethol

Mae Eglwys St Aelhaearn yng Nghaernarfon wedi cael cynnig arian hefyd. O darddiad canoloesol, mae'r eglwys yn parhau i gadw llawer o'i chymeriad gwreiddiol yn allanol ac mae'n cynnwys manylion cain cynnar fel croglen sy'n dyddio o'r 15$^{fed}$ ganrif. Mae grant o £30,000 wedi'i gynnig ar gyfer cynllun i adnewyddu ac adfer y to, y drysau a'r ffenestri.

Bydd y buddsoddiad hwn yn nhreftadaeth adeiledig Cymru yn helpu i sicrhau y caiff amgylchedd hanesyddol cyfoethog ac amrywiol Cymru ei chadw a'i diogelu er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ei mwynhau.

## 6.2 Datganiad Sefyllfa'r Amgylchedd Hanesyddol

Ym mis Ionawr, cyhoeddais gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad i ystyried cynhyrchiant adroddiad ar gyflwr yr amgylchedd hanesyddol. Mae fy swyddogion wedi bod yn ystyried y cynnig ymhellach, a drafodwyd gyda'r Grŵp Amgylchedd Hanesyddol ym mis Chwefror a chaiff ei ystyried ymhellach mewn cyfarfod y mis hwn.

Credwn y byddai cwmpas y gwaith, ar y dechrau o leiaf, yn cwmpasu'r elfennau hynny o weithgaredd yn yr amgylchedd hanesyddol y mae gan Lywodraeth y Cynulliad, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, a dau banel cynghori newydd Llywodraeth y Cynulliad ar adeiladau hanesyddol a henebion reolaeth uniongyrchol drostynt. Yn amodol ar yr hyn a allai ddigwydd yn ystod y misoedd nesaf, gallai'r archwiliad gwmpasu materion diogelwch statudol a dynodiadau ar draws yr amgylchedd hanesyddol, gweithdrefnau caniatáu a rheoli, materion rheoli a rhoi grantiau, adroddiadau cyflwr, yr henebion sydd o dan ofal y wladwriaeth, cofnodion archeolegol a hanesyddol ac effaith dogfennau strategaeth bresennol.

Bydd hyn yn cynnwys corff sylweddol o waith na choladwyd erioed o'r blaen, a fydd yn dangos y cynnydd a wneir i ddiogelu'r amgylchedd hanesyddol a rhoi meincnod o'r safle presennol. Y bwriad yw y byddwn yn cael cyhoeddiad ar ddechrau'r flwyddyn nesaf o dan y teitl cydweithiol *Cymru Hanesyddol/Historic Wales*, y cyhoeddais fanylion yn ei gylch ym mis Ebrill y llynedd ac y byddwn yn uno'r cynnyrch cyhoeddedig a'r gwaith cyflwyno fel y gellir deall themâu ac amcanion cyffredinol yn well.

## 7. Y GYMRAEG

### 7.1 Ail gyfarfod "Fforwm Iaith" - 16 Mai 06

Ar 16 Mai, cynhaliodd Llywodraeth y Cynulliad ail gyfarfod y Fforwm Iaith, yn lleoliad trawiadol Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a agorwyd yn ddiweddar yn Abertawe.

Daeth tua 200 o bobl i gyfarfod cyhoeddus y Fforwm Iaith a oedd yn nifer sylweddol iawn. Y thema y tro hwn oedd manteision Addysg Ddwyieithog ac roedd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau hefyd yn bresennol gyda mi ar y noson. Roedd hefyd yn bleser cael Meri Huws, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar y panel ac roedd yr Athro Colin Baker hefyd yn bresennol, aelod o'r Bwrdd ac arbenigwyr ar ddwyieithrwydd sy'n enwog yn fyd-eang. Rhoddodd yr Athro Baker gyflwyniad symbylol ar fanteision addysg ddwyieithog a arweiniodd at sesiwn drafod ddiddorol ac adeiladol. Gyda'r ymgynghoriad ar gyfuno Bwrdd yr Iaith yn dod i ben ar 27 Mai, roedd cyfle hefyd i'r gynulleidfa ofyn cwestiynau ar sut y bydd y cyfuno'n cryfhau gallu Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu Cymru ddwyieithog a sut y parheir â gwaith y Bwrdd ar ôl y cyfuno. Daeth y cyfarfod i ben gyda chyfle agored i'r gynulleidfa drafod materion cyffredinol yn ymwneud â'r iaith Gymraeg gyda mi.

### 7.2 Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Rhuthun - 29 Mai - 3 Mehefin 2006

Ar ôl llwyddiant Eisteddfod yr Urdd y llynedd ym Mae Caerdydd, dychwelodd yr ŵyl eleni i leoliad mwy traddodiadol, ac roedd yn bleser croesawu Eisteddfod yr Urdd 2006 i'm milltir sgwâr innau yn Rhuthun.

Eleni, ymwelais â'r Eisteddfod ar ddydd Gwener 2 Mehefin, a chefais ddiwrnod llawn diddorol a phleserus. Roedd hyn yn cynnwys ymweliad â stondin Amgueddfa Genedlaethol Cymru ble mae'r Amgueddfa wedi bod yn gweithio drwy'r wythnos ar brosiect archaeoleg gyda phlant o bedair ysgol gynradd leol.

Roedd presenoldeb y Llyfrgell Genedlaethol yn yr Urdd yn canolbwyntio ar waith ei arlunydd preswyl, Christine Mills, a Phartneriaeth Prosiect Arlunydd Preswyl. Christine yw arlunydd preswyl cyntaf y Llyfrgell, ac mae wedi'i phenodi mewn cydweithrediad ag Ysgol Gymraeg Aberystwyth, ac o dan nawdd Cywaith Cymru. Bu i bresenoldeb Christine yn Stondin y Llyfrgell Genedlaethol yn yr Eisteddfod alluogi plant ledled Cymru i gymryd rhan mewn

gweithgareddau, a thrwy wneud hynny, dysgu mwy am y Llyfrgell Genedlaethol a'i gwaith diddorol. Roedd yn bleser derbyn casgliad o waith Christine gan y Llyfrgell Genedlaethol.

Roedd Pafiliwn Chwaraeon Eisteddfod yr Urdd eto yn gyffro o weithgareddau eleni, ac roeddwn yn falch o gael y cyfle i gymryd rhan weithredol. Ar ôl cyflwyno tlws haeddiannol i dîm Pêl-fasged Merched y Rhyl - sydd wedi eu coroni yn ddiweddar yn Bencampwyr Rhanbarthol Cymru ac enillwyr Cynghrair Glannau Dyfrdwy, cyfranogais yn y sesiwn hyfforddiant gyda thîm rygbi'r Sgarlets.

Roedd hefyd yn bleser unwaith eto eleni i fynd i seremoni fawreddog y Coroni, sef uchafbwynt cystadleuol y diwrnod, a enillwyd am yr ail flwyddyn yn olynol gan **Gwenno Mair Davies**.

# 8. CYHOEDDI

## 8.1 Llyfrgell Cymru

Mae'n bleser gennyf nodi bod y ffigurau gwerthu cyntaf i'w cyhoeddi (hyd at fis Ebrill) ar gyfer cyfres Llyfrgell Cymru yn dangos bod gwerthiannau wedi bod yn fwy na'r ffigurau a ragwelwyd ac mae sawl teitl wedi eu hailargraffu ddwywaith. Cyfanswm gwerthiant pob teitl hyd at fis Ebrill oedd 11,519 o gopïau.

# 9. DARLLEDU

## 9.1 Papur Gwyn ar yr Adolygiad o Siarter Frenhinol y BBC

Rwyf wedi ymateb ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y Papur Gwyn. Mae'r ymateb ar gael yn ddwyieithog ar wefan Cynulliad Cymru.

# 10. Ymweliadau a Cyfarfodydd Gweinidogol Eraill

- Cyfarfod chwe-misol gyda Chyngor Llyfrau Cymru ar 5 Mehefin.
- Cyngor Ymgynghorol CyMAL ar 8 Mehefin
- Cynhadledd Hamdden a Mynediad, Cymdeithas Eryri ar 10 Mehefin
- Diwydiannau Creadigol yn Dewis Enillwyr ar 12 Mehefin
- Cyfoeth Cymru Gyfan yn Amgueddfa Pont-y-pŵl ar 12 Mehefin
- Gwobrau Dylunio Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 13 Mehefin

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

### Atodiad A – Araith y Gweinidog dros Ddiwylliant, Cynhadledd Cyngor Celfyddydau Cymru 10 Mai 2006

Rydym yn cyfarfod fel dywed y ddihareb Tsieineaidd ar adeg ddiddorol. Mae dal swydd weinidogol ym meysydd diwylliant a pholisi iaith yn llawer o bethau - ond byth yn ddiflas.

Dyma'r araith olaf y byddaf yn ei gwneud yn y fforwm hwn. Yr araith olaf cyn i bobl Cymru ddweud eu dweud yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol y flwyddyn nesaf a chaiff ein democratiaeth yng Nghymru ei hadnewyddu.

Heddiw hoffwn edrych ar yr hyn y mae'r sector wedi'i gyflawni dros y tair blynedd diwethaf a hoffwn wneud cyhoeddiad ariannu pwysig. Ond yn gyntaf datganiad o werthoedd.

Mae diwylliant ynddo'i hun yn bwysig. Mae'n helpu i ddiffinio'r hyn yr ydym ni - cenedl fechan ar ochr Ddwyreiniol yr Undeb Ewropeaidd - ond yn genedl â hunaniaeth unigryw a fynegir mewn dwy iaith.

Mae gan ddiwylliant ran fawr i'w chwarae yn rhai o brif nodau strategol y Llywodraeth - Datblygu Economaidd, gwella iechyd, adeiladu cymunedau cryfach a mwy diogel.

Nid wyf erioed wedi meddwl nad oes y fath beth â chymdeithas. Casgliad o ddefnyddwyr ydym a chymdeithas yw'r swm cronedig o'u grym yn y farchnad. Mae hynny, i mi, yn weledigaeth lom.

Mae diwylliant yn rhan o'r glud sy'n helpu i glymu cymunedau â'i gilydd. Dyna un o'r rhesymau pam cyhoeddais becyn ariannu ddoe ar gyfer parti pen-blwydd. Mae ein Hanthem Genedlaethol yn 150 oed y mis hwn a bydd parti i ddathlu hynny - ym Mhontypridd. Parti mawr, yn yr awyr agored, am ddim ym Mhontypridd i ddathlu un o anthemau gorau'r byd.

Tybiaf y bydd digon o gefnogaeth gan y cyhoedd i hynny. Ond rydym oll yn ymwybodol nad fel yna y mae hi bob amser. Weithiau mae'r celfyddydau'n radical ac ar flaen y gad. Mae llyfrau, dramâu, celfyddydau gweledol, yn aml iawn - ac felly y dylent ei wneud - yn troedio meysydd sy'n herio ein ffordd o feddwl - meysydd sy'n herio, meysydd sy'n tramgwyddo'n llwyr. Gadewch i mi roi enghraifft ymarferol o fater sydd ar fy nesg ar hyn o bryd.

Rwyf wedi derbyn cannoedd o lythyrau am y cynhyrchiad o Jerry Springer the Opera sydd ar y ffordd. Nid enwau ar ddeiseb ond llythyrau gyda dadleuon da sy'n cyfleu'n ofalus ac yn ddilys y tramgwydd diffuant a achosir drwy lwyfannu’r gwaith hwn ar y llwyfan yn Ganolfan y Mileniwm. Rwyf wedi cael rhagor o lythyrau - hyd yma - ar hyn nac unrhyw fater arall ers i mi fod yn Weinidog dros Ddiwylliant.

Nid yw'n ddigon da diystyru'r teimladau hyn gyda'r frawddeg "Nid wyf yn siŵr a oes ots gan Dduw am Ganolfan y Mileniwm" fel y gwnaeth un newyddiadurwr yr wythnos hon. Efallai nad oes ganddo farn grefyddol gref - mae llawer ohonom felly - ond mae ein cymdeithas yn cynnwys Cristnogion, a Mwslemiaid selog a sawl ffydd arall.
Rwyf wedi amlygu'r ffaith nad wyf yn mynd i ymyrryd yn y mater hwn. Nid wyf erioed wedi ymyrryd mewn penderfyniadau celfyddydol. Un o'r materion yr hoffwn i bwyllgor Stephens feddwl amdano yw sut i gael mur tân rhwng penderfyniadau celfyddydol a chynrychiolwyr y bobl a etholwyd yn ddemocrataidd. Mae gan Lywodraeth Cymru a etholwyd yn ddemocrataidd - ac mae'n gymaint o syniad newydd o hyd fel nad yw rhai pobl yn ei ddeall - berffaith hawl i benderfynu ar gyfran ein cyfoeth cenedlaethol a refeniw trethi sy'n cael eu neilltuo i gefnogi'r celfyddydau. Mae ganddi'r hawl i ddweud sut y caiff arian cyhoeddus ei briodoli yn fras - Yn arbennig sut caiff y £27m ei ddosbarthu ledled y genedl - yn ddaearyddol a'i ddosbarthiad economaidd-gymdeithasol hefyd. Mae Cymru wedi'i hanffurfio gan anghydraddoldeb mewn llawer o feysydd mewn cymdeithas.

Ni all polisi diwylliannol ei hun newid hynny, wrth gwrs, ond gall wneud gwahaniaeth. Ond nid oes gan gynrychiolwyr etholedig rôl mewn dyfarniadau celfyddydol.

Rwyf wedi pwysleisio fy mod am weld mwy o fuddsoddi cyhoeddus yn y celfyddydau yn ein cymunedau tlotaf yng Nghymru.

Wrth gwrs mae llawer o bethau yn mynd ymlaen sydd o fudd mawr mewn llefydd fel fy nghartrefi - y Rhondda. Mae Plant y Cymoedd, Celfyddydau Cymunedol y Rhondda a lleoliadau'r awdurdod lleol oll yn cyfrannu i fywyd diwylliannol yr ardal.

Yn wir, mae buddsoddiad o flwyddyn i flwyddyn cyhoeddus wedi golygu y celfyddydau mewn cyflwr da ond rwyf yn gwybod bod llawer iawn mwy i'w wneud.

Mae Canolfan Mileniwm Cymru - mae'n hawdd anghofio pa mor ddiweddar ydyw - wedi bod yn llwyddiant celfyddydol mawr - gyda rhaglennu'n amrywio o sioeau poblogaidd y West End i gynyrchiadau Opera Cenedlaethol Cymru - ac wrth gwrs gallwch fynd i mewn am bum punt. Mae'n gyflym iawn yn datblygu enw da ledled y byd fel mae Cyfres y Fodrwy gan gwmni Kirov yn ei brofi.

Gyda'r Galeri yng Nghaernarfon, Glan yr Afon yng Nghasnewydd, Theatr Brycheiniog yn Aberhonddu, Theatr Mwldan yng Ngheredigion a'r Torch yn Aberdaugleddau, lle y cydnabu Gwobrau Cymdeithas Rheoli Theatraidd waith Peter Doran y llynedd wrth i Theatr y Torch ddechrau ar ei datblygiad sy'n costio sawl miliwn o bunnoedd.

Mae Cynllun y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd wedi rhoi'r posibilrwydd i leoliadau a chwmnïau cynhyrchu wireddu uchelgeisiau newydd i greu gwaith a mynd ag ef ar daith ac i ddod â chynnyrch y mae llawer o alw amdano i Gymru ac i gyd-gynhyrchu.

Mae rhoi adnoddau i sefydliad Cynulleidfa Cymru yn cyhoeddi dulliau newydd o ddatblygu'r farchnad a datblygu cynulleidfaoedd. Mae'r manteision yn rhan

ddeheuol ein cenedl yn bennaf ond dylent gael eu datblygu dros fwy o'r wlad wrth i'r arfer o fynd i'r theatr ddychwelyd i arferion y genedl.

Mae gwaith cychwynnol yr astudiaeth effaith ar effaith Canolfan y Mileniwm ar gynulleidfaoedd yn nodi cynnydd mewn cynulleidfaoedd yn gyffredinol mewn lleoliadau eraill a allai fod wedi teimlo dan fygythiad. Ymddengys bod yr archwaeth at fynd i'r theatr a gweld perfformiadau ar gynnydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi mentrau fel taith symudol Clwyd Theatr Cymru, a oedd yn mynd â theatr o'r radd flaenaf i ganolfannau hamdden a llefydd lle y mae mynediad i'r theatr yn anarferol a heb ei sefydlu.
Mae £1m y flwyddyn wedi cael ei fuddsoddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi Theatr Gymraeg wrth greu Theatr Genedlaethol Cymru a'i gwaith cyntaf.

**Yng Nghaerdydd, caiff sail gynhyrchu i theatr newydd yng Nghymru ei gwella gan y gobaith cyffrous o gyfuno Sgript Cymru a'r Sherman yn Theatr y Sherman ar ei newydd wedd lle y gellir meithrin synergeddau newydd gyda Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.**

Ond nid dim ond mater o frics a morter yw theatr, mae'n fater o bobl. Mae'n ymwneud ag awyrgylch greadigol i ysgrifennu, cyfarwyddo ac yna cyflwyno ac ymgysylltu.

Mae'n ymwneud â'r cydweithio y mae unigolion creadigol yn ei feithrin i greu ethos cwmni, arddull ac ymagwedd. Mae'n ymwneud ag arbrofi a dod o hyd i ffurfiau newydd - rhywbeth y mae nifer o gwmnïau Cymru fel Hijinx, Volcano, Earthfall, No Fit State Circus a rhai o'n artistiaid unigol amlwg wedi'i sefydlu'n gryf.

Gallwn edrych o gwmpas ystad ffisegol - seilwaith perfformiad gydag ychydig foddhad - a phenderfyniad i atgyweirio'r rhannau mewn cyflwr gwael nas ymdriniwyd â hwy. Ond y prosiect sydd wedi rhoi'r boddhad mwyaf yn y swydd fu fy ngallu i awdurdodi ac ariannu'r gwaith o greu Llyfrgell Cymru.

Mae profiad academaidd Dai a'i allu i reoli wedi llwyddo i droi cysyniad a chyllideb yn darllen llyfrau yn eich llaw. Rwyf yn sicr y bydd Dai yn defnyddio'r ddwy dalent hyn wrth arwain y Cyngor Celfyddydau drwy Adolygiad Stephens.

Hoffwn gloi gyda chyhoeddiad ariannu pwysig. Mae'n ymwneud â Theatr Saesneg. Bu gennym gwmni perfformio cenedlaethol dynodedig ym maes theatr ers i'r Cyngor Celfyddydau roi'r statws i Glwyd Theatr Cymru yn 1998. Ond mae pob un ohonom yn gwybod hynny. Yn arbennig yn y de, nid oes hanner digon o gynnyrch. Mae llawer o'r cynhwysion yn bresennol. Mae gennym y gallu i gynhyrchu yn Abertawe, ac rydym wedi gweld gwelliannau ffisegol yng Nghaerdydd. Hoffwn adeiladu ar y gwaith hwn a heddiw rwyf yn cyhoeddi buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth y Cynulliad o £0.5m yn ychwanegol at y buddsoddiadau sylfaenol presennol.

Rwyf wedi gofyn i Dai Smith a chydweithwyr eraill y Cyngor Celfyddydau i ailarchwilio model Theatr Genedlaethol yr Alban ac i gyflwyno argymhellion i mi o ran sut y dylid defnyddio'r arian hwn.

Rwyf yn ymrwymedig i feithrin balchder yn ein diwylliant, hyder yn ein hunaniaeth a rhoi cymorth ychwanegol i'r aelodau mwyaf difreintiedig yn ein cymunedau.

Dylem achub ar y cyfle i sicrhau bod diwylliant yn chwarae ei ran lawn mewn Cymru well a tecach yr ydym all am ei chyflawni.

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

## Atodiad B - Mis Amgueddfeydd ac Orielau - Rhestr o Wobrau

**CyMal: Archif Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd Cymru**
**Grant Strategol Amgueddfeydd - Dyraniad 2006-07**

| Rhif Cyf. | Amgueddfa | Corff Llywodraethu | Disgrifiad o'r Cynllun | Dyraniad |
|---|---|---|---|---|
| **12** | Amgueddfa Cas-gwent | Cyngor Sir Fynwy | Cynhyrchu fersiwn diwygiedig o'r arddangosfa 'Nathaniel Wells o Piercefield a St Kitts', yn cynnwys cynhyrchu paneli dyblyg i deithio yng Nghymru. | £2,250.00 |
| **16** | Amgueddfa Powysland (mewn partneriaeth ag 20 o Amgueddfeydd eraill yng Nghymru) | Cyngor Sir Powys | Ail gam yr arolwg o Gasgliadau Ethnograffig yng Nghymru a rhoi'r manylion ar wefan | £10,000.00 |
| **19** | Gwasanaeth Amgueddfeydd a Diwylliant Ynys Môn | Cyngor Sir Ynys Môn | Datblygu adnoddau dysgu rhyngweithiol ar gyfer amgueddfeydd sy'n defnyddio byrddau gwyn | £15,000.00 |
| **18** | Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | Cymdeithas Dogfennaeth Amgueddfeydd i ddarparu cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi i gynorthwyo amgueddfeydd i gael eu hachredu | £10,930.00 |
| **48** | Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | Penodi Swyddog Datblygu dros y Ffederasiwn i ddatblygu ei waith gydag amgueddfeydd yng Nghymru. | £30,000 |
| | | | **Is-gyfanswm** | **£68,180.00** |

***Grant Her Amgueddfeydd - Dyraniad 2006-07***

| | ***Amgueddfeydd Annibynnol*** | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhif Cyf.** | **Amgueddfa** | **Corff Llywodraethu** | **Disgrifiad o'r Cynllun** | **Dyraniad** |
| **2** | Amgueddfa Greenfield Valley | Ymddiriedolaeth Treftadaeth Greenfield Valley | Hyfforddi gwirfoddolwyr mewn gwaith cadwraeth ac ymgymryd â gwaith cadwraeth gwirioneddol | £1,930.00 |
| **3** | Amgueddfa a Chymdeithas Hanes Porthcawl | Ymddiriedolaeth Treftadaeth Porthcawl | Cadwraeth ataliol ar y casgliad o wisgoedd ac offer clyweledol ar gyfer gweithgareddau allgymorth | £3,547.41 |
| **4** | Ymddiriedolaeth Elusendy Llanrwst | Ymddiriedolaeth Elusendai ac Amgueddfeydd Llanrwst | Gwell arddangosfeydd ac arolwg cadwraeth o gasgliad yr amgueddfa | £5,219.80 |
| **5** | Amgueddfa Llandudno | Ymddiriedolaeth Chardon | Gwella arddangosfa amgueddfeydd y Rhyfel Byd Cyntaf yr amgueddfa, yn cynnwys ymchwil a dehongliad newydd | £9,764.00 |
| **14** | Amgueddfa Bywyd Gwledig Brynbuga | Cymdeithas Cadwraeth Crefftau Gwledig | Swydd Swyddog Addysg (parhad) | £7,729.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **20** | Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan | Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan | Swyddog Dysgu a Churadurol (parhad) | £14,488.00 |
| **21** | Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan | Ymddiriedolaeth Castell Bodelwyddan | Gwella mynediad a chyfeiriadedd ymwelwyr yng Nghastell Bodelwyddan | £7,300.00 |
| **24** | Oriel ac Amgueddfa yr Ysgol Gelf | Prifysgol Cymru, Aberystwyth | Uwchraddio diogelwch arddangosfeydd | £2,818.00 |
| **26** | Oriel ac Amgueddfa yr Ysgol Gelf | Prifysgol Cymru, Aberystwyth | Gwaith cadwraeth i hwyluso arddangosfeydd a mynediad i gasgliad Edward Bouverie Hoyton | £2,058.00 |
| **29** | Amgueddfa Morwrol Caergybi | Amgueddfa Morwrol Caergybi | Lloches Cyrch Awyr "Caergybi mewn Rhyfel" - datblygu'r adral arddangos ac addysg | £4,230.00 |
| **32** | Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli | Ymddiriedolaeth Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli | Gwelliannau adeiladu i ddiogelu ac arddangos arteffactau mawr | £10,000.00 |
| **33** | Amgueddfa Pont-y-pŵl | Ymddiriedolaeth Amgueddfa Tor-faen | Mynediad i Bawb yn Amgueddfa Pont-y-pŵl - gwella mynediad a phrofiad ymwelwyr | £6,581.45 |
| **34** | Amgueddfa Rufeinig Segontium | Segontium Cyf | Swyddog Datblygu (parhad) | £13,195.00 |
| **40** | Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | Cynhadledd Materion Cadwraeth yng Nghymru - digwyddiadau datblygu'r gweithlu | £2,630.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Amgueddfeydd Awdurdod Lleol** | | | |
| **6** | Gwasanaeth Amgueddfeydd Conwy | Cyngor Sir Conwy | Swydd Addysg Amgueddfa (blwyddyn 2) | £15,747.00 |
| **8** | Amgueddfa ac Oriel Gelf Castell Cyfarthfa | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Cadwraeth ataliol i alluogi paentiadau i gael eu harddangos | £4,168.00 |
| **9** | Oriel Gelf Glynn Vivian (ar gyfer Gwasanaeth Amgueddfa Abertawe) Oriel Gelf Vivian ac Amgueddfa Abertawe) | Cyngor Sir Abertawe | Uwchraddio'r system rheoli casgliadau i MODES XML sy'n galluogi'r ddarpariaeth o gabanau gwybodaeth gyhoeddus | £5,438.00 |
| **10** | Amgueddfa Pontypridd | Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf | Caffael casys arddangos newydd i wella arddangosfeydd a diogelwch | £3,196.00 |
| **11** | Amgueddfa Cas-gwent | Cyngor Sir Fynwy | Storio a mynediad gwell ar gyfer eitemau wedi eu fframio. | £6,511.00 |
| **13** | Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd | Cyngor Dinas Casnewydd | Darparu casys arddangosfa amgueddfa ar gyfer arteffactau wedi eu datgloddio gyda Llong Casnewydd | £8,256.00 |
| **22** | Cyngor Caerdydd | Cyngor Sir Caerdydd | Swyddog Prosiect Amgueddfa Caerdydd (parhad) | £18,062.00 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **23** | Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir Fynwy | Cyngor Sir Fynwy | Gweithgareddau ymwelwyr Mis Amgueddfeydd ac Orielau | £3,000.00 |
| **25** | Gwasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Swydd i godi safonau rheoli casgliadau, gwella mynediad a rhoi cymorth i ennill statws Achrediad Amgueddfa | £10,000.00 |
| **28** | Amgueddfa Cwm Cynon | Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf | Uwchraddio diogelwch arddangosfeydd | £5,792.00 |
| **35** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | Gwaith cadwraeth ar deils, brics a chasgliad teracota i alluogi'r arddangosfa | £7,000.00 |
| **36** | Carchar Rhuthun | Cyngor Sir Ddinbych | Cynorthwyo Carchar Rhuthun i ennill statws wedi'i Achredu yn cynnwys datblygu ardal arddangosfa sy'n addas ar gyfer arddangosfeydd teithiol | £10,000.00 |
| **39** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen | Cynhyrchu Strategaeth Treftadaeth, yn cynnwys polisi amgueddfeydd ar gyfer Tor-faen | £4,000 |
| **41** | Amgueddfa Abertawe | Cyngor Sir Abertawe | Uwchraddio diogelwch arddangosfeydd a'r amgueddfa yn gyffredinol er mwyn cydymffurfio â safonau | £10,000.00 |
| **44** | Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog | Cyngor Sir Powys | Swydd Swyddog Rheoli Casgliadau (parhad) | £4,436.00 |
| **45** | Amgueddfa Sir Faesyfed | Cyngor Sir Powys | Swydd Swyddog Datblygu Prosiect (parhad) | £3,972.00 |
| **46** | Amgueddfa ac Oriel Gelf Brycheiniog | Cyngor Sir Powys | Gwella cadwraeth casgliadau a mynediad i ddogfennaeth drwy uwchraddio system rheoli casgliadau MODES | £3,705.00 |
| **47** | Amgueddfa ac Oriel Gelf Parc Howard | Cyngor Sir Caerfyrddin | Uwchraddio gofod oriel/arddangosfa ar gyfer 'Stori Llanelli - y Blynyddoedd Cynnar' | £10,000.00 |
| **50** | Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | Cyngor Sir Gwynedd | Arddangosfa Deithiol Frank Brangwyn | £5,356 |
| **51** | Amgueddfa ac Oriel Gwynedd | Cyngor Sir Gwynedd | Datblygu casgliadau trin ar gyfer gwaith addysgol | £2,416 |
| | | | **Is-gyfanswm** | **£232,545.66** |
| | | | **Cyfanswm a ddyrannwyd** | **£300,725.66** |

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

## Atodiad C – Cynllun Achredu Amgueddfa – Rhestr o Amgueddfeydd sydd wedi'u Hachredu'n Llawn - 31 Mai 2006

**Powys**
Amgueddfa Powysland a Chanolfan Camlas Trefaldwyn
Amgueddfa Llanidloes
Amgueddfa Tecstilau'r Drenewydd

***Casnewydd***
Amgueddfa ac Oriel Gelf Casnewydd
Canolfan Camlas Fourteen Locks

***Sir Fynwy***
Amgueddfa  a Chanolfan Hanes Leol Nelson
Amgueddfa'r Fenni
Amgueddfa Cas-gwent
Castell Caldicot

***Ceredigion***
Amgueddfa Ceredigion

**Rhondda Cynon Taf**
Amgueddfa Cwm Cynon

Ar hyn o bryd mae 72 o amgueddfeydd lleol wedi eu cofrestru yng Nghymru, yn ychwanegol at yr 11 amgueddfa a restrir uchod sydd erbyn hyn wedi eu hachredu'n llawn.

## ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHWARAEON

### Atodiad Ch - ENILLWYR MEDALAU O GYMRU - Cwpan y Byd Paralympic, Manceinion

| Disgyblaeth | Enw | Cystadleuaeth | Medal |
|---|---|---|---|
| **Athletau** | Beverley Jones | Taflu Pwysau | Aur |
| | Tracey Hinton | 400m ** | Aur |
| | Lloyd Upsdell | 200m | Efydd |
| **Pêl-fasged** | Claire Strange | Tîm Pêl-fasged | Arian |
| | Caroline Matthews | Tîm Pêl-fasged | Arian |
| **Beicio** | Jody Cundy | Tîm Beicio | Aur |
| | Ellen Hunter | Ras Tandem 1000m ** | Aur |
| | Ellen Hunter | 200m Mantais Gychwynnol | Arian |

** Record y Byd Newydd

| Medalau | Niferoedd |
|---|---|
| Aur | 4 |
| Arian | 3 |
| Efydd | 1 |
| **CYFANSWM** | **8** |